

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfuno, addasu a phersonoli amrywiaeth o dechnegau lliwio a goleuo er mwyn creu amrywiaeth o effeithiau ffasiwn. Mae defnyddio technegau gwehyddu a lliwio yn seiliedig ar dafellu a lliwio bloc yn ofynnol, yn ogystal â'r gallu i roi taeniad o gynnyrch goleuo ar ben llawn ac aildyfiant. Mae'r gallu i adfer dyfnder a thôn lliw, niwtraleiddio tôn lliw a lliwio gwallt gwydn hefyd yn ofynnol.

Er mwyn gweithredu'r safon hon, bydd angen ichi gynnal a chadw iechyd, diogelwch a hylendid ar raddfa uchel drwy gydol eich gwaith. Bydd rhaid ichi hefyd gynnal a chadw ymddangosiad personol proffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Prif ddeilliannau'r safon hon yw:

1. cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth liwio a goleuo gwallt
2. paratoi ar gyfer gwasanaethau lliwio a goleuo
3. lliwio a goleuo gwallt yn greadigol
4. datrys problemau lliwio sylfaenol

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth liwio a goleuo gwallt

1. cynnal a chadw eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch drwy gydol y gwasanaeth
2. paratoi eich cleient er mwyn bodloni gofynion y salon
3. diogelu dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth
4. gwisgo cyfarpar gwarchod personol wrth ddefnyddio cemegau lliwio a neu oleuo
5. gosod eich cleient mewn safle sy'n bodloni anghenion y gwasanaeth heb iddyn nhw fod yn anghysurus
6. sicrhau bod eich osgo a'ch safle chi eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
7. cadw eich ardal waith yn lân a thaclus drwy gydol y gwasanaeth
8. defnyddio dulliau gweithio sy'n:
 - 8.1 lleihau gwastraff **cynhyrchion**
 - 8.2 lleihau'r risg o groes-heintiad
 - 8.3 gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio
 - 8.4 sicrhau'r defnydd o adnoddau glân
 - 8.5 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi eich hun ac eraill
 - 8.6 hybu arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy
9. sicrhau bod eich hylendid, eich diogelwch a'ch ymddangosiad personol yn bodloni gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
10. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a **chynhyrchion**
11. gwared defnyddiau gwastraff
12. cwblhau'r gwasanaeth o fewn amser masnachol ymarferol

Paratoi ar gyfer gwasanaethau lliwio a goleuo

13. gofyn cwestiynau priodol i'ch cleient er mwyn canfod unrhyw wrthrybuddion i wasanaethau lliwio a/neu goleuo
14. cofnodi ymatebion eich cleient i gwestiynau
15. cynnal pob **prawf** angenrheidiol, gan ddilyn cyfarwyddiadau gwneuthurwyr a gweithdrefnau cydnabyddedig y diwydiant
16. cofnodi deilliannau **profion** ar gerdyn cofnodi'r cleient
17. sylfaenu'ch argymhellion ar werthusiad manwl gywir o wallt eich cleient a'i

botensial i gyflawni'r effaith a ddymunir

18. dweud wrth eich cleient beth yw'r gost debygol, hyd a chanlyniad disgwylidig y gwasanaeth

19. dewis **cynhyrchion**, offer a chyfarpar yn seiliedig ar ganlyniadau **profion** angenrheidiol, ymgynghoriad â'ch cleient a **ffactorau** perthnasol sy'n dylanwadu ar y gwasanaeth

20. paratoi defnyddiau i fodloni gofynion eu taenu, pan fydd angen

21. paratoi **cynhyrchion** i gyfarfod â chyfarwyddiadau gwneuthurwyr

22. paratoi gwallt eich cleient a diogelu'i chroen/groen, lle bydd angen, cyn y gwasanaeth.

Lliwio a goleuo gwallt yn greadigol

23. archwilio'r amrywiaeth o olygon posib gyda'ch cleient gan ddefnyddio cymhorthion gweledol perthnasol

24. seilio eich argymhellion ar werthusiad o wallt eich cleient a'r posibilrwydd y gall y gwallt gynnal yr effeithiau a ddymunir

25. defnyddio **effeithiau lliwio a goleuo** mewn ffordd arloesol er mwyn creu'r olwg a ddymunir

26. defnyddio **technegau taenu cynhyrchion goleuo** sy'n addas ar gyfer creu'r olwg a ddymunir a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

27. addasu eich technegau gan roi ystyriaeth i'r **ffactorau** fydd yn dylanwadu ar lwyddiant yr effaith a ddymunir

28. cyfuno a gosod **cynhyrchion** mewn ffordd fydd yn ategu'r steil gwallt

29. defnyddio technegau sy'n lleihau'r risg i'r **cynhyrchion gael eu taenu** ar groen a dillad eich cleient, a'r manau cyfagos

30. taenu'r cynnyrch goleuo

31. monitro'n barhaus:

31.1 datblygiad y cynhyrchion lliwio a goleuo

31.2 cyflwr y gwallt

31.3 sensitifrwydd y croen pen

31.4 cyflwr y cynnyrch goleuo

32. cynnal **profion** cudyn ac elastigedd yn fynych a rheolaidd

33. datrys unrhyw broblemau sy'n digwydd yn ystod y broses lliwio a goleuo gan ddefnyddio'r camau cywiro perthnasol

34. sicrhau bod taenu arllwyddion ar wallt sydd wedi'i oleuo yn llwyddo i greu'r effaith a ddymunir, pan ddefyddir y rheiny

35. llwyddo i greu'r **effeithiau lliwio neu oleuo** sydd wrth fodd y cleient

36. tynnu'r cynnyrch lliwio a neu oleuo oddi ar y gwallt er mwyn lleihau'r anesmwythdra i'ch cleient ac unrhyw ddifrod i'r gwallt a'r croen pen

37. sicrhau bod taenu arllwyddion ar wallt sydd wedi'i oleuo yn llwyddo i greu'r effaith a ddymunir, pan fydd hynny'n ofynnol
38. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y gwasanaeth a ddarperir

Datrys problemau lliwio sylfaenol

39. defnyddio dulliau i:
 - 39.1 asesu cyflwr y gwallt
 - 39.2 adnabod y broblem wrth liwio
 - 39.3 adnabod **cynhyrchion cywiro lliw** addas
 - 39.4 adnabod **technegau cywiro lliw** addas
40. esbonio wrth eich cleient yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer datrys eu problem gyda lliw
41. cyfeirio eich cleient am waith cywiro lliw arbenigol, os oes angen
42. defnyddio **technegau cywiro lliw** yn effeithiol er mwyn llwyddo i sicrhau'r lliw gofynnol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth liwio a goleuo gwallt

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y maent wedi eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n gysylltiedig â'ch rôl swydd
2. gofynion eich salon ynglŷn â pharatoi cleient
3. y mathau o ddillad a chynhyrchion gwarchod a ddylai fod ar gael i chi eich hun a'ch cleientiaid
4. pam ei bod yn bwysig defnyddio cyfarpar gwarchod personol
5. sut y gall safle eich cleient a chi eich hun gael effaith ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
6. pam ei bod yn bwysig cadw eich ardal waith yn lân a thaclus
7. sut i leihau gwastraff cynhyrchion
8. dulliau o weithio'n ddiogel ac yn lanwaith ac sy'n lleihau'r risg o groes-heintiad a thraws-bla
9. y gwahanol ddulliau o lanhau, diheintio a sterileiddio a ddefnyddir mewn salonau
10. y peryglon a'r risgiau sy'n bod yn eich gweithle a'r arferion gweithio diogel sy'n rhaid i chi eu dilyn
11. y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hybu **arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**
12. pwysigrwydd hylendid a hunan-gyflwyniad personol er mwyn cynnal a chadw **iechyd a diogelwch** yn eich gweithle
13. beth yw dermatitis cyffwrdd a sut i osgoi ei ddal wrth gynorthwyo gyda gwasanaethau lliwio
14. cyfarwyddiadau'r cyflenwyr a'r gwneuthurwyr ar gyfer gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion y mae'n rhaid i chi eu dilyn
15. y dulliau cywir o wared gwastraff
16. amserau gwasanaeth disgwylid eich salon ar gyfer gwasanaethau lliwio a goleuo creadigol
17. pa wasanaethau lliwio a goleuo na ddylid eu cyflawni ar bobl ifanc dan 16 mlwydd oed

Paratoi ar gyfer gwasanaethau lliwio a goleuo

18. arwyddocad cyfreithiol holi'r cleient a chofnodi ymatebion y cleient i gwestiynu
19. pwysigrwydd adnabod unrhyw **wrthrybuddion** i wasanaethau lliwio a

goleuo

20. y mathau o brofion a'u pwrpas

21. pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr mewn perthynas â phrofion sensitifrwydd croen a'r canlyniadau posib o fetu cynnal y profion hyn

22. pryd a sut y dylid cynnal profion a phwysigrwydd cofnodi canlyniadau profion

23. sut y gall canlyniadau profion ddylanwadu ar y gwasanaethau lliwio a goleuo

24. y camau gweithredu i'w cymryd os ceir adweithiau anffafriol i brofion

25. pwysigrwydd hysbysu eich cleient o gost debygol, hyd a chanlyniad disgwylidig y gwasanaeth

26. egwyddorion dewis lliwiau, gan gynnwys y Siart Lliwiau Rhyngwladol (ICC)

27. sut mae pigment naturiol gwallt yn effeithio ar y broses lliwio a goleuo

28. effeithiau goleuni a golau artiffisial ar olwg lliw gwallt

29. effeithiau gwahanol gynhyrchion lliwio a goleuo ar y gwallt

30. beth a olygir wrth y term 'ocsidiad'

31. sut mae math a dosbarthiad melanin yn creu lliw gwallt naturiol

32. sut mae'r gwahanol gryfderau o hydrogen perocsid yn effeithio ar liwio a goleuo gwallt

33. effeithiau tymheredd ar daeniad a datblygiad cynhyrchion lliwio a goleuo

34. sut y gall gwahanol **ffactorau** effeithio ar eich gwasanaeth lliwio a goleuo

35. pwysigrwydd monitro datblygiad cynhyrchion goleuo yn barhaus

36. pwysigrwydd mesur a chymysgu cynhyrchion lliwio a goleuo gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

37. y rhesymau dros gyn-oleuo

38. gwerthoedd pH gwahanol gynhyrchion lliwio a goleuo

39. y mathau o gynhyrchion lliwio, goleuo ac arlliwio sydd ar gael, gan gynnwys lliwiau dros dro

40. pwysigrwydd paratoi gwallt eich cleient a gwarchod ei chroen/groen, lle bydd angen, cyn y gwasanaeth.

Lliwio a goleuo gwallt yn greadigol

41. ffynonellau gwybodaeth greadigol ac ysbrydoliaeth e.e. hanesyddol, diwylliannol a ffasiwn

42. pwysigrwydd seilio eich argymhellion ar werthusiad o wallt eich cleient

43. yr effeithiau lliwio a goleuo y gellir eu cael drwy ddefnyddio technegau tafellu, lliwio bloc a gwehyddu

44. sut i ddefnyddio **technegau gosod cynhyrchion goleuo** addas er mwyn creu'r olwg a ddymunir

45. sut i osod lliw mewn ffordd fydd yn ategu steil gwallt

46. sut i gyflawni taeniad pen llawn ac aildyfiant gan ddefnyddio cynhyrchion

goleuo

47. sut a pham y dylid addasu trefn taeniad er mwyn rhoi ystyriaeth i'r **ffactorau** perthnasol

48. pwysigrwydd ymrannu'r gwallt yn fanwl gywir wrth liwio a goleuo

49. dulliau o daenu a thynnu cynhyrchion lliwio a goleuo

50. pwysigrwydd defnyddio cynhyrchion yn ddarbodus

51. pwysigrwydd defnyddio technegau sy'n lleihau'r risg o daenu'r **cynhyrchion** ar groen a dillad eich cleient a'r manau oddi amgylch

52. pwysigrwydd taenu'r cynnyrch goleuo yn gyflym ac yn fanwl gywir gan roi ystyriaeth i **ffactorau** perthnasol sy'n dylanwadu ar y gwasanaeth

53. pwysigrwydd monitro'r broses lliwio a goleuo yn barhaus

54. sut y dylid addasu taenu a thynnu'r cynnyrch goleuo er mwyn lleihau sensitifrwydd y croen pen a niwed i'r gwallt

55. pwysigrwydd adfer cydbwysedd pH y gwallt wedi'r broses lliwio a goleuo

56. pam ei bod yn bwysig osgoi ymyrryd ag adrannau sy'n dal i brosesu wrth dynnu cynhyrchion o rannau sydd wedi datblygu

57. pam fod arlliwyddion yn cael eu defnyddio ar ôl cynhyrchion goleuo

58. sut a pham y dylid adfer dyfnder a thôn lliw

59. sut a pham y dylid niwtraleiddio tôn lliw

60. pwysigrwydd rhoi **cyngor ac argymhellion** ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir yn y salon

Datrys problemau lliwio sylfaenol

61. y mathau o broblemau lliwio a goleuo a'u hachosion a sut i'w cywiro

62. y rhesymau dros gyn-feddalau a chyn-bigmentu gwallt

63. dulliau o gyn-feddalau a chyn-bigmentu gwallt

**Cwmpas/Ystod
cysylltiedig â meini
prawf perfformiad**

1. Cynhyrchion

- 1.1 parhaol
- 1.2 lled-barhaol
- 1.3 cynhyrchion goleuo
- 1.4 arlliwyddion

2. Profion

- 2.1 croen
- 2.2 anghydawnsedd
- 2.3 mandylledd
- 2.4 elastigedd
- 2.5 lliw

3. Ffactorau

- 3.1 dosbarthiadau gwallt
- 3.2 nodweddion gwallt
- 3.3 tymheredd
- 3.4 lliw presennol y gwallt
- 3.5 canran y gwallt gwyn
- 3.6 canlyniadau profion
- 3.7 cryfder yr hydrogen perocsid
- 3.8 hyd y gwallt
- 3.9 tôn y croen
- 3.10 cyfnod amser ers y pyrm neu'r llaciwr diwethaf
- 3.11 tynnu estyniadau gwallt yn ddiweddar

4. Effeithiau lliwio a goleuo

- 4.1 tafellu
- 4.2 lliw bloc
- 4.3 gwehyddu

5. Technegau taenu cynhyrchion goleuo

- 5.1 pen llawn
- 5.2 taeniad ar aildyfiant
- 5.3 goleuo bloc ar ben rhannol

6. Cynhyrchion cywiro lliw

- 6.1 lliw rhannol barhaol
- 6.2 lliw lled-barhaol
- 6.3 lliw parhaol.

7. Technegau cywiro lliw

7.1 adfer dyfnder a thôn

7.2 niwtraleiddio tôn lliw

7.3 lliwio gwallt gwydn.

8. Cyngor ac argymhellion

8.1 sut i gynnal a chadw eu lliw

8.2 cyfnod amser rhwng gwasanaethau

8.3 cynhyrchion a gwasanaethau presennol ac i'r dyfodol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

1. Iechyd a diogelwch

Eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch fel y maent yn cael eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n gysylltiedig â'ch rôl swydd

- 1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- 1.2 Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (*RIDDOR*)
- 1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
- 1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
- 1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario
- 1.6 Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (*COSHH*)
- 1.7 Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
- 1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd
- 1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- 1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

2. Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hybu arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

- 2.1 lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, aildefnyddio, gwaredu diogel)
- 2.2 lleihau'r defnydd o ynni (sychwyr gwallt ynni-effeithlon, golau rhad-ar-ynni, defnyddio paneli solar)
- 2.3 lleihau'r defnydd o ddr ac adnoddau eraill
- 2.4 atal llygredd
- 2.5 defnyddio eitemau tafladwy (tywelion hawdd eu sychu)
- 2.6 defnyddio dodrefn ecogyfeillgar wedi'u hailgylchu
- 2.7 defnyddio paent cemegau isel
- 2.8 defnyddio cynhyrchion gwallt organig a rhydd o alergedd
- 2.9 defnyddio lliwyddion gwallt amonia isel iawn
- 2.10 defnyddio deunydd pacio cynnyrch ecogyfeillgar
- 2.11 dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
- 2.12 annog teithiau lleihau carbon i'r gwaith

3. Gwrthrybuddion (enghreifftiau yn unig)

pwysigrwydd adnabod unrhyw wrthrybuddion i wasanaethau lliwio a goleuo

- 3.1 hanes adwaith alergol blaenorol i gynhyrchion lliwio
- 3.2 alergeddau gwybyddus eraill
- 3.3 anhwylderau croen

- 3.4 cynhyrchion anghydnavs
- 3.5 cyngor neu gyfarwyddyd meddygol
- 3.6 difrod amlwg i'r gwallt
- 3.7 cyfyngiadau oedran

4. Ffactorau

Y gwahanol ffactorau sy'n rhaid eu hystyried cyn ac yn ystod lliwio a goleuo a sut y mae'r rhain yn effeithio ar y gwasanaethau

- 4.1 dosbarthiadau gwallt
- 4.2 nodweddion gwallt
- 4.3 tymheredd
- 4.4 lliw presennol y gwallt
- 4.5 canran y gwallt gwyn
- 4.6 canlyniadau profion
- 4.7 cryfder yr hydrogen perocsid
- 4.8 hyd y gwallt
- 4.9 tôn y gwallt
- 4.10 cyfnod amser ers y pyrm neu'r llaciwr diwethaf
- 4.11 tynnu estyniadau gwallt yn ddiweddar

5. Cyngor ac argymhellion

- 5.1 gwasanaethau ychwanegol
- 5.2 cynhyrchion ychwanegol

Gwerthoedd

1. Mae'r **Gwerthoedd Allweddol** canlynol yn tanategu cyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr:
 - 1.1 parodrwydd i ddysgu
 - 1.2 cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol
 - 1.3 bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant fel ei gilydd
 - 1.4 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn bodloni gofynion derbynol y diwydiant a'r sefydliad
 - 1.5 agwedd hyblyg tuag at waith
 - 1.6 gweithiwr tîm
 - 1.7 cynnal a chadw gofal cwsmeriaid
 - 1.8 agwedd gadarnhaol
 - 1.9 moeseg bersonol a phroffesiynol
 - 1.10 y gallu i hunan-reoli
 - 1.11 sgiliau creadigrwydd
 - 1.12 sgiliau cyfathrebu geiriol a chyfathrebu di-eiriau ardderchog
 - 1.13 cynnal a chadw dulliau gweithio effeithiol, hylan a diogel
 - 1.14 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwr neu'r gwneuthurwr er mwyn defnyddio cyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion yn ddiogel

Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol yn tanategu'r dasg o gyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bodloni safonau ymddygiad y salon
 - 1.1 cyfarch y cleient yn barchus ac mewn ffordd gyfeillgar
 - 1.2 cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddi/iddo deimlo'n werthfawr ac yn barchus
 - 1.3 adnabod a chadarnhau disgwyliadau'r cleient
 - 1.4 trin y cleient mewn ffordd gwrtais a gwasanaethgar ar bob adeg
 - 1.5 rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleient a'i chadw/gadw'n gysurion
 - 1.6 addasu'r ymddygiad er mwyn ymateb yn effeithiol i ymddygiad gwahanol gleientiaid
 - 1.7 ymateb yn brydlon i gleient sy'n ceisio cymorth
 - 1.8 dewis y ffordd fwyaf priodol o gyfathrebu â'r cleient
 - 1.9 cadarnhau gyda'r cleient eich bod wedi deall ei disgwyliadau/ ddisgwyliadau yn llwyr
 - 1.10 ymateb yn brydlon a chadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
 - 1.11 rhoi amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi esboniad pellach pan fydd hynny'n briodol
 - 1.12 dod o hyd i wybodaeth ar fyr dro fydd o gymorth i'r cleient
 - 1.13 rhoi i'r cleient y wybodaeth sydd ei hangen arni/arno am y gwasanaethau neu'r cynhyrchion a gynigir gan y salon

- 1.14 adnabod gwybodaeth all fod yn gymhleth i'r cleient a gwirio a yw hi/e yn ei deall yn llwyr
- 1.15 esbonio'n glir wrth y cleientiaid unrhyw resymau pam na ellir cyfarfod â'u hanghenion neu eu disgwyliadau

Geirfa

1. Dosbarthiad Gwallt (canllaw yn unig yw hwn)

Math 1 – Gwallt syth

- 1.1 Ffein/Tenau – y gwallt yn tueddu bod yn sidanaidd iawn, yn sgleiniog a seimlyd, a gall fod yn anodd dal cyrlen.
- 1.2 Canolig – llawer o foliwm a swmp yn perthyn i'r gwallt
- 1.3 Bras – y gwallt fel arfer yn syth dros ben ac yn anodd ei gyrlio.

Math 2 – Gwallt tonnog

- 2.1 Ffein/Tenau – patrwm "S" pendant i'r gwallt. Fel arfer gall ddal gwahanol steiliau.
- 2.2 Canolig – y gwallt yn tueddu bod yn grych ac ychydig yn ymwrthol wrth Steilio.
- 2.3 Bras – y gwallt hwn hefyd yn ymwrthol wrth ei steilio ac yn grych iawn fel arfer; y tonnau'n tueddu bod yn fwy trwchus.

Math 3 – Gwallt cyrliog

- 3.1 Cwrls llac – ansawdd gyfunol yn tueddu bod i'r gwallt. Gall fod yn drwchus a llawn ac yn swmpus, ac iddo batrwm "S" pendant. Mae hefyd yn tueddu bod yn grych.
- 3.2 Cwrls tynn – ansawdd gyfunol yn tueddu bod i'r gwallt hyn hefyd; ynghyd â maint cymedrol o gwrls.

Math 4 – Gwallt cyrliog iawn

- 4.1 Sidanaidd – y gwallt yn tueddu bod yn frau iawn, yn dorchau tynn ac iddo batrwm cyrliog mwy diffiniedig.
- 4.2 Gwrychog – hefyd yn frau iawn ac yn dorchau tynn; er hynny mae iddo batrwm cyrliog llai diffiniedig – mwy o siâp patrwm "Z".

2. Mae **Nodweddion Gwallt** yn cynnwys y canlynol:

- 2.1 trwch gwallt
- 2.2 ansawdd gwallt
- 2.3 elastigedd gwallt
- 2.4 mandylledd gwallt
- 2.5 cyflwr gwallt
- 2.6 patrymau tyfiant gwallt

SKACH10

Lliwio a goleuo gwallt yn greadigol



Datblygwyd gan SkillsActive

Fersiwn rhif 2

Dyddiad cymeradwyo February 2014

Indicative Review Date April 2018

Dilysrwydd ArHynOBryd

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol SkillsActive

RCU gwreiddiol SKAGH17

Galwedigaethau perthnasol Galwedigaethau Gwasanaeth Personol; Mentrau Gwasanaeth; Mentrau mân-werthu a masnachol

Cyfres/Set Trin gwallt; Trin gwallt a barbro

Geiriau Allweddol Trin gwallt, lliwio gwallt, goleuo gwallt
